

## **ATODIAD**

### **Diweddariad am Adroddiad Asesu Rhagarweiniol Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Perygl Llifogydd**

Adolygwyd Asesiad Rhagarweiniol Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Perygl Llifogydd yn ystod 2017 gan ddefnyddio'r holl ddata a gwybodaeth berthnasol a chyfredol am berygl llifogydd. Cytunwyd arno gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar 17 Rhagfyr 2017.

Mae'r datganiadau isod yn disgrifio'r adolygiad o'r asesiad risg ers i'r adroddiad asesu rhagarweiniol gael ei gyhoeddi yn 2011.

#### **Perygl Llifogydd yn y gorffennol**

Cafwyd adolygiad o'r llifogydd a fu ers cyhoeddi'r Adroddiad Asesu Rhagarweiniol cyntaf ynghylch Perygl Llifogydd yn 2011 a chanfu hwn fod y llifogydd canlynol wedi arwain at ganlyniadau niweidiol sylweddol yn lleol.

Llanddowror 25 Ionawr 2013 – Llifogydd mewn 27 eiddo o ganlyniad i law trwm a chynnydd yn y tymheredd a doddodd yr eira a oedd ar lawr, gan arwain at lifogydd yr amcangyfrifir eu bod yn cyfateb i gyfnod dychwelyd o 100 mlynedd. Mae hyn y tu allan i'r ardaloedd o berygl llifogydd a nodwyd yng Nghylch 1 yr Asesiad Rhagarweiniol ynghylch Perygl Llifogydd ac nid yw'n arwain at Ardal Sylweddol Newydd o Berygl Llifogydd

#### **Perygl Llifogydd yn y dyfodol**

Os rhoddwyd diweddariad i lifogydd hanesyddol yn yr holiadur, rhowch grynodedb o'r wybodaeth a ychwanegwyd at yr holiadur fan hyn: Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i nodi ers cyhoeddi'r Adroddiad Asesu Rhagarweiniol cyntaf ynghylch Perygl Llifogydd yn 2011 sydd wedi arwain at newidiadau o ran deall perygl llifogydd yn y dyfodol; nodwyd Ardal Sylweddol o Berygl Llifogydd yng nghyffiniau Stryd Arthur Rhydaman ar sail yr uFMFSW (Map llifogydd dŵr wyneb wedi'i ddiweddarau) ond nid yw hyn yn peri bod ardal sylweddol newydd o berygl llifogydd yn ychwanegol i'r ardaloedd a nodwyd yng Nghylch 1 yr Asesiad Rhagarweiniol ynghylch Perygl Llifogydd

#### **Ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd**

Bydd yr Ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd – cylch 1 – yng Nghymru yn cael eu hadolygu fel rhan o asesiad rhagarweiniol cyfun a manwl ynghylch perygl llifogydd a fydd yn cwmpasu'r holl Ffynonellau o ran Perygl Llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2018.